**CYDBWYLLGOR**
**ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**
**BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

**Cynhaliwyd: 26 Mehefin 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe**

**Awdur yr Adroddiad: Howard Sutcliffe Swyddog AHNE**

**Teitl: Eitem 5 Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Drafft ar gyfer Partneriaeth AHNE**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad?

Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl - Partneriaeth AHNE (Atodiad1)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Gweithgor Swyddogion AHNE wedi diwygio'r Cylch Gorchwyl gwreiddiol a'r Cyfansoddiad o 2013 pan arweiniwyd yr AHNE gan Gydbwyllgor Ymgynghorol Interim. Mae'r ddogfen newydd ar gyfer Partneriaeth AHNE yn ystyried sefydlu'r Cydbwyllgor a'r Cytundeb Cyfreithiol rhwng y tri Awdurdod. Credir bod y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl Drafft yn addas i'r pwrpas.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cydbwyllgor yn craffu ac yn cymeradwyo'r Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl Drafft newydd ac yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Swyddog AHNE ymgynghori â Phartneriaeth AHNE ynghylch unrhyw newidiadau y byddai'n eu hargymell i'r Cydbwyllgor.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Gweler y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl Drafft yn atodiad 1.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Mae aelodau'r Bartneriaeth yn bartneriaid allweddol yn y dasg o weithredu'r Cynllun Rheoli. Bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cyfrannu tuag at drefn effeithiol o lywodraethu.

**6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost ar wahân i amser swyddogion.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad.**

**Gweler Atodiad 2**

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Bydd y Swyddog AHNE yn cyflwyno'r cynnig drafft i Bartneriaeth AHNE.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**Enw da-** Mae llywodraethu da'n elfen allweddol o reoli'r AHNE.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Mae'r sail gyfreithiol yn Adran 101(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol ddod i gytundeb i 'Gyflawni swyddogaethau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol drwy gyfrwng Cydbwyllgor'.